**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 6ed Hydref 2021, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, J. Chamberlain-Jones, Ms J. Hughes, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 38. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs E. M. Chard a T. Thomas.

## 39. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MEDI 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1229 | BT | 246.24 | Llinell ffôn a rhyngrwyd |
| 1228 | HSBC | 7.40 | Taliadau banc 17eg Gorffennaf i 16eg Awst 2021 |
| 1167 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Wyddog Arsbed Ynni – taliad 2 o 4 2021/22 |
| 1140 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig Ffordd Wellington– taliad 6 o 10 |
| 1168 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apelio – taliad 6 o 12 2021/22 |
| 1230 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffioedd Rheoli Awst 2021 |
| 1231 | CThEM | 2,794.69 | Didyniadau PAYE ar gyfer Awst 2021 |
| 1232 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,294.23 | Cyfraniadau pensiwn ac ariannu diffyg Awst 2021 |
| 1233 | Cyflogau staff | 7,362.97 | Cyflogau staff Medi 2021 |
| 1234 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 loan – taliad 2 o 3 2021/22 |
| 1244 | BT | 219.22 | Llinell ffôn a band eang |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£52,214.41** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Day Money Market | 0.58 |
| Santander | Llog ar Gyfrif Hysbysu 31 Diwrnode | 23.57 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Money Maker | 1.34 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Day Money Market | 0.58 |
| Quadient | Ad-daliad ar gredyd ar gyfer peiriant ffrancio | 200.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | (nad oedd yn cael ei ddefnyddio bellach) | |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Day Money Market | 0.77 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Day Money Market | 0.77 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Day Money Market | 0.77 |
| | **Cyfanswm Incwm** | **£228.38** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 40. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

(9fed – 28ain Medi 2021)

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1248 | Y Cyngh D. L. King | Treuliau'r Maer Gorffennaf 2021 | 17.25 |
| 1249 | Y Cyngh D. L. King | Treuliau'r Maer Awst 2021 | 31.60 |
| 1250 | Swyddfa Bost | Stampiau dosbrth cyntaf | 85.00 |
| 1251 | Cymdeithas Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru | Tanysgrifiad blynyddol | 90.00 |
| **Cyfanswm** | | | **£223.85** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 41. YMGYNGHORIAD: COMISIWN FFINIAU CYMRU – AROLWG ETHOLAETHAU SENEDDOL 2023

Ymhellach i gofnod rhif 53 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Medi 2021, cyflwynodd Clerc y Dref ei ymateb drafft fel man cychwyn (dosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r aelodau ebostio eu barn unigol i Glerc y Dref cyn dydd Llun 11eg Hydref i'w alluogi i ail-ysgrifennu'r ymateb yn unol â hynny a dod â hwn yn ôl gerbron cyfarfod y Cyngor ar 20fed Hydref i'w gymeradwyo cyn cael ei gyflwyno.*

## 42. GOHEBIAETH: CLWB GOLFF Y RHYL

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gohebiaeth gan Gyfarwyddwr Marchnata'r clwb golff (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei hystyried.

Dywedodd y Cynghorydd B. Mellor ei fod ef ac aelodau eraill y ward, B. Jones a T. Thomas wedi cyfarfod yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr Awel y Mor a'r clwb golff a swyddogion Cyngor Sir Ddinbych, ac roedd y ddau opsiwn arfaethedig ar gyfer fferm wynt Awel y Mor wedi eu cadarnhau a bod y tri aelod wedi hysbysu pob un o'r partion o'u gwrthwynebiad i Opsiwn A, a fyddai'n gorfodi'r clwb golff gau yn barhaol, fel yr amlinellwyd yn y llythyr gan y clwb.

Ychwanegodd y Cynghorydd Mellor bod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar y diwrnod hwnnw wedi pleidleisio o blaid Opsiwn B, a fyddai'n lleoli'r ddau blwch trosglwyddo mawr mewn lleoliad amgen hanner milltir i mewn ar ochr arall gwersyll Lyons Robin Hood a'r lein reilffordd ger Dyserth Bends, yn hytrach nag yng nghanol y cwrs golff.

Cynghorodd y Cynghorydd Mellor yr aelodau i fynd i wefan y clwb golff a chlicio ar y ddolen ymgynghori cyn dydd Llun 11eg Hydref, diwrnod olaf y broses ymgynghori.

Grthwynebodd yr aelodau Opsiwn A oherwydd yr effaith niweidiol y byddai'n ei gael ar y clwb golff.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn cysylltu gyda Rheolwr Datblygu Cyngor Sir Ddinbych, Mr Paul Mead, i gael gweld ymateb y Pwyllgor Cynllunio i Awel y Mor, cyn cyfleu gwrthwynebiad y Cyngor Tref i Opsiwn A a chefnogi Opsiwn B cyn dydd Llun 11eg Hydref.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

**43. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**44. GOFYNION TG AR GYFER SIAMBR Y CYNGOR I HWYLUSO CHYFARFODYDD HYBRID**

Cyfeiriodd Clerc y Dfref at ei adroddiad chyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn amlinellu dau opsiwn a awgrymwyd gan ymgynghorydd TG y Cyngor Tref a fyddai'n hwyluso cyfarfodydd hybrid yn y dyfodol, fel sydd ei angen nawr dan ddeddfwriaeth newydd ar gyfer holl gynghorau yng Nghymru, er mwyn i'r aelodau ei ystyried.

Ychwanegodd Clerc y Dref y byddai angen i holl gyfarfodydd hybrid yn y dyfodol barhau i ddilyn cyfyngiadau Covid-19 a oedd yn berthnasol ar y pryd.

At hyn, argymhellodd Clerc hy Dfref Opsiwn 2, a oedd yn cynnwys dwy sgrin fwy er mwyn gallu gweld yn well o du mewn i'r siambr ac er mwyn y rhai a oedd yn mynychu'n rhithwir, ac mai dyna'r unig wahaniaeth rhwng y ddau opsiwn.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) Cymeradwyo Opsiwn 2 am gost o £7,844.00 ac awdurdodi Clerc y Dref i archebu'r offer cyn gynted ag y bo modd.*

*(ii) Trefnu hyfforddiant llawn ac ymarfer cyn mynd yn fyw gyda'r sysgtem newydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 45. COFNODION CYFFRINACHOL

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybdoaeth i'r aelodau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 29ain Gorffennaf 2021 | - Rhifau Cofnod 1-11 |

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth i'r aelodau a chymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Is-bwyllgor Asesu Risg | - | 27ain Medi 2021 | - | Rhifau Cofnod 22-27 |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

## 46. TRWSIO GOLEUADAU

Adroddodd Clerc y Dref yn llafar ar nifer o oleuadau yr oedd angen eu trwsio cyn rhoi goleuadau'r Nadolig ymlaen yr oedd ef (gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd) wedi eu cymeradwyo am gost o £2,200 er mwyn iddyn nhw fod yn barod mewn pryd.

Fodd bynnag, ar ôl archwiliad pellach yng nghyfleusterau trwsio Blachere roedd angen trwsio dau olau arall am gost ychwanegol o £625.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) Cyemradwyo'r gwariant gwreiddiol o £2,200 a'r gost ychwanegol o £625.*

*(ii) Clerc y Dref i ofyn i Blachere os oedd goleuadau pwer solar yn opsiwn at y dyfodol.*

## 47. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………